

ATODIAD 2 – NODIADAU CYFARWYDDYD

1. NODAU'R FFURFLEN GAIS YW:

- 1.1. Rhoi gwybodaeth gynnar i'r Llys Teulu i'w alluogi i benderfynu'n briodol ar unrhyw gyfarwyddyd angenrheidiol y mae angen ei roi mewn perthynas â dogfennau, cofnodion neu ddeunydd tystiolaethol arall sydd ym meddiant yr heddlu mewn achosion neu ymchwiliadau troseddol perthnasol a allai roi gwybodaeth i'r llys (a'r partïon) wrth benderfynu ar unrhyw fater ffeithiol neu fater lles mewn achos teulu.
- 1.2. Rhoi rhybudd ymlaen llaw amserol i'r heddlu o fodolaeth yr achos teulu a natur a manylion yr wybodaeth a geisir gan yr heddlu.
- 1.3. Galluogi'r heddlu i nodi ymlaen llaw pa ddogfennau, cofnodion neu ddeunydd tystiolaethol arall (gan gynnwys deunydd a ddefnyddiwyd a deunydd nas defnyddiwyd) sydd ar gael neu a allai fod ar gael i'w datgelu i'r llys teulu ac a oes unrhyw wrthwynebiad neu anhawster i ddatgelu'r un peth ar unwaith.
- 1.4. Cynorthwyo'r llys (a'r partïon) i lunio cyfarwyddiadau safonol a gyfarwyddir i'r heddlu a fydd yn gweithredu (os oes angen) fel cyfrwng i brosesu a delio â phob cyfarwyddyd o'r fath ar gyfer datgelu sy'n effeithio ar unrhyw adran/bwrsari heb oedi gormodol.
- 1.5. Annog datgelu gwybodaeth lawn a gonest yn gynnar rhwng yr heddlu, y partïon a'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r llys dim ond er mwyn osgoi amharu ar gynnal ymholiadau parhaus yr heddlu ar adeg y cais.
- 1.6. Annog ceisiadau am ddatgeliad sy'n gyfyngedig i ddeunydd sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol i ddatrys y materion yn yr achos Llys Teulu

Bydd archwiliadau cyfyngedig fel y'u diffinnir gan yr heddlu yn cael eu cwblhau er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y cais. SYLWER: nid yw'r ymchwil yn gynhwysfawr o holl systemau deallusrwydd/gwybodaeth yr heddlu ac mae'n bosibl y bydd gwybodaeth arall yn cael ei chadw. Dim ond ymchwil i adroddiadau ymchwiliadau a Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith (LEDS) fydd yn cael eu cwblhau yn y rhan fwyaf o'r ceisiadau sy'n cael eu hanfon at yr heddlu.

2. DEALL CYFRINACHEDD

Ni fydd gwybodaeth yr heddlu'n cael ei datgelu oni bai fod ystyriaethau pwysig o ran budd y cyhoedd i wyro oddi wrth rheol gyffredinol cyfrinachedd. Amddiffyn plant yw un o'r meysydd lle gellir gwneud eithriadau.

Mae gwybodaeth a ddarperir gan yr heddlu yn unol â'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgymeriadau ymhlyg a ganlyn ar ran y partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol oni chyfarwyddir yn benodol gan y llys:

- 2.1. Dim ond at ddibenion yr achos presennol, a pharatoi ar ei gyfer, y bydd unrhyw ddeunydd a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio oni cheir caniatâd y llys a'r heddlu;
- 2.2. Dim ond i weithwyr proffesiynol yn yr achos (a'r partïon) y caiff ei ddatgelu oni cheir caniatâd y llys ac y rhoddir hysbysiad cynnar i'r heddlu;
- 2.3. Fel arall, bydd y deunydd yn cael ei gadw'n gyfrinachol a dylid ei gopïo cyn lleied â phosibl er mwyn osgoi gormodedd o gopïau o ddeunydd sensitif;
- 2.4. Os oes tystiolaeth Sicrhau'r Dystiolaeth Orau neu dystiolaeth sain/fideo/digidol arall, bydd copi fel arfer ar gael ar gais cyn gynted ag y bydd ymchwiliadau'r heddlu'n caniatáu hynny. Ni fydd copïau o dystiolaeth sain/fideo/digidol yn cael eu darparu i bartïon heb gynrychiolaeth, ond bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos, yn dibynnu ar gynnwys yr wybodaeth a'r risg i drydydd partïon. Dylid sicrhau cyn lleied â phosibl o gopïo tystiolaeth o'r fath a dylid ystyried y partïon sy'n mynd i'r orsaf heddlu briodol neu i adeiladau'r awdurdod lleol er mwyn gweld y dystiolaeth ar adeg sy'n gyfleus i bawb. Lle nad yw hyn yn bosibl a bod yn rhaid copïo'r dystiolaeth ymhellach, bydd y parti/partïon yn talu'r costau rhesymol mae'r heddlu'n eu hwynebu o ran copïo oni bai fod trefniadau eraill wedi eu cytuno rhwng yr heddlu a chynrychiolwyr cyfreithiol y partïon ar gyfer gwneud copïau;
- 2.5. Rhaid i'r partïon lofnodi a chadw at delerau'r Cyfarwyddiadau Trin a Thrafod er mwyn atal y dystiolaeth rhag cael ei lledaenu / ei chopïo / ei defnyddio heb awdurdod. Gweler y Cyfarwyddiadau Trin a Thrafod sydd ynghlwm wrth y ffurflen gais – gellir “addasu'r” rhain yn briodol i gynnwys tystiolaeth arall os oes angen gan naill ai'r heddlu neu'r partïon perthnasol;
- 2.6. Na fydd yr heddlu'n trawsgrifio nac yn gwneud trefniadau i drawsgrifio unrhyw gyfweiliad fideo neu gyfweiliad wedi ei recordio ar dâp oni bai fod hyn eisoes wedi ei wneud mewn cysylltiad ag erlyniad/ymchwiliad troseddol. Os bydd gofyn i'r heddlu drawsgrifio tystiolaeth, bydd y parti/partïon yn talu'r costau rhesymol sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth hwn.

3. FFI OEDD CYFFREDINOL A CHODI TÂL

Mae'r canllawiau'n galluogi'r heddlu i adennill y costau'n briodol ar gyfer datgelu gwybodaeth mewn perthynas ag achosion teulu. Yn anffodus, ni ellir derbyn taliadau arian parod.

Cyfeiriwch at wefan yr heddlu i gael rhestrau codi tâl. Bydd y Ffi Datgeliad Safonol yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

4. CYMESUREDD

Rhaid i bob parti ddeall bod y broses hon wedi ei chynllunio i hwyluso ceisiadau am eitemau o dystiolaeth yn unig na all y parti sy'n gwneud y cais eu cael drosto'i hun, neu na all gael y dystiolaeth honno yn hawdd iawn, ac mai dim ond yr heddlu sydd â'r

dystiolaeth hon, ac sydd o bwysigrwydd canolog ac nid ymylol i'r materion a'r digwyddiadau sy'n cael eu hystyried gan y Llys Teulu.

Dylai pob parti ddefnyddio'r cais yn gymesur gan ystyried yr hyn sy'n rhesymol, yn uniongyrchol berthnasol ac yn angenrheidiol wrth geisio datgeliad gan unrhyw drydydd parti.

Ni ddylid gofyn i'r heddlu ystyried dogfennau i'w datgelu sydd wedi cael eu cynhyrchu gan asiantaeth trydydd parti. Dylai'r llys/cyfreithiwr geisio datgeliad yn uniongyrchol gan yr asiantaeth trydydd parti fel y gellir cwblhau asesiad risg a gwneud unrhyw waith golygu sy'n angenrheidiol.

5. ADRAN 8 Y CAIS

Er mwyn cynnal perthynas waith dda gyda'r heddlu, a lleihau unrhyw risg bosibl a achosir drwy ddatgelu deunydd yr heddlu (fel ffurflenni 87d, nodiadau cynhadledd achos, Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd, adroddiadau Merlin ac ati), dylai'r awdurdod lleol ofyn am ganiatâd i rannu unrhyw wybodaeth gyda'r Llys a'r partïon sy'n gysylltiedig â'r achos cyfredol.

Rhaid i ddogfennau y mae angen eu hystyried ar gyfer eu datgelu gael eu hatodi i'r cais a'u hanfon ymlaen i'r cyfeiriad priodol.

6. GOLYGIADAU

Bydd y penderfyniad ynghylch pa olygiadau sydd i'w gwneud yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael i'r heddlu a'r hyn a ddarperir gan y llys/cyfreithiwr sy'n gofyn am ddatgelu, gan gynnwys gwybodaeth am y materion sy'n cael eu penderfynu yn yr achos teulu. Yn absenoldeb arweiniad gan y partïon, bydd yr heddlu'n gwneud yr asesiad o berthnasedd. Os bydd ymholiad ynghylch y golygiadau a roddwyd gan yr heddlu, anogir cynrychiolwyr cyfreithiol y partïon i nodi'r ddogfen benodol a rhestru pa gamau mae angen eu hesbonio ymhellach. Rhagwelir y gellir delio â hyn drwy ohebiaeth a heb fod angen dychwelyd y mater i'r llys. Os nad yw'r esboniad a ddarparwyd yn bodloni'r partïon a bod anghydfod o hyd ynghylch unrhyw olygiad penodol, bydd yr heddlu'n ystyried a fydd angen gwneud cais i'r llys a, lle bo'n bosibl, yn rhoi gwybod i'r partïon.

Os bydd y llys neu'r partïon yn gofyn am gael codi unrhyw un o'r golygiadau, bydd yr heddlu'n ystyried y cais hwnnw ac yn codi'r golygiadau lle bo hynny'n briodol. Bydd yr heddlu hefyd yn dileu'r golygiadau pan fydd gwybodaeth yn cael ei dal yn ôl ar sail rhagfarn yn erbyn ymchwiliad parhaus, nad yw bellach yn peri risg o'r fath ac ar y sail nad oes unrhyw gategori arall o olygu yn berthnasol.

Ni ddylid ceisio cyfarwyddiadau ar gyfer datgeliadau heb eu golygu gan y llys.

7. MATERION AR ÔL CYHUDDIADAU

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn arwain ar benderfyniadau sy'n ymwneud â datgelu deunydd sydd wedi cael ei gynhyrchu o ganlyniad i ymchwiliad sydd ar gam ar ôl cyhuddo. Os bydd gan Wasanaeth Erlyn y Goron unrhyw wrthwynebiad a/neu bryder am y deunydd y gofynnir amdano o ran yr effaith ar y treial, rhaid iddynt hwy fel yr awdurdod erlyn fod yn gyfrifol am wneud unrhyw gais/cyflwyniad angenrheidiol i'r Llys yn uniongyrchol. Gall yr Heddlu wneud sylwadau ar wahân o ran unrhyw bryder o safbwynt diogelu.

Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, bydd yr Heddlu'n trafod y mater gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, rhoi gwybod iddynt am natur yr achos sy'n mynd rhagddo a'r deunydd y gofynnir amdano ar yr adeg hwnnw. Rhaid i gyfarwyddiadau sy'n dilyn cyfranogiad Gwasanaeth Erlyn y Goron gyfeirio'n benodol at yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Ni fydd yr Heddlu ond yn darparu datgeliad mewn amgylchiadau pan fydd ganddynt bryderon diogelu, a dim ond os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cais datgelu y rhoddir datgeliad, neu lle mae'r Llys yn gwneud gorchymyn datgelu pellach yn dilyn sylwadau a wneir gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu.

8. IMIWNEDD BUDD Y CYHOEDD

Os penderfynir bod angen gwneud cais yn hawlio imiwnedd budd y cyhoedd dros ddeunydd neu wybodaeth benodol, bydd yr heddlu'n rhoi gwybod i'r llys ac, os yw'n briodol, yn rhoi gwybod i'r partïon.

9. DYFEISIAU ELECTRONIG

Mae'r adran hon yn berthnasol i'r dyfeisiau electronig mae'r heddlu'n eu cymryd fel rhan o ymchwiliad a'r data a lwythir i lawr o'r dyfeisiau hynny (ffonau symudol, iPad, gliniaduron ac ati).

Dylid nodi y bydd yr heddlu'n ymdrechu i gynorthwyo'r achosion teulu drwy ddatgelu'r hyn y credir yn aml sy'n wybodaeth allweddol, ac felly'r man cychwyn yw hynny mewn egwyddor, sef nad oes gwrthwynebiad i ddarparu'r deunydd hwn. Fodd bynnag, gall fod anawsterau sylweddol o ran darparu datgeliad o'r fath i'r graddau sy'n ofynnol o fewn yr amserlen achosion teulu.

Nid yw llwytho i lawr dyfeisiau a/neu ddadansoddiad fforensig o'r data bob amser yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth mewn strategaeth ymchwilio troseddol, ac felly mae'n bosibl na fydd ar gael yn gynnar mewn ymchwiliad. Ar ben hynny, pan wneir yr ymarfer llwytho i lawr, mae'n aml yn cael ei wneud gan arbenigwyr sy'n annibynnol ar yr heddlu, sydd â'u blaenoriaethau eu hunain o ran terfynau amser llwyth gwaith. Er gwaethaf y

cymhlethdodau hyn, bydd yr heddlu'n ceisio cyflymu'r broses pan geisir gwybodaeth o'r fath; rhywbeth y gellir ei gynorthwyo gan y partïon sy'n darparu gwybodaeth fel:

9.1. Manylion pa ddyfeisiau penodol sydd i'w llwytho i lawr

9.2. Manylion pwy yw perchennog y ddyfais

9.3. Paramedrau dyddiad ar gyfer unrhyw ddadansoddiad fforensig

9.4. Unrhyw wybodaeth allweddol (h.y. Cyfathrebu rhwng unigolion a enwir; rhifau ffôn ac ati).

Os derbynnir cais i ddatgelu data llwytho i lawr electronig, bydd y cais yn cael ei ystyried gan y swyddog ymchwilio gan ystyried y canlynol:

9.5. A oes gan y swyddog gopi o'r hyn a lwythwyd i lawr yn ei feddiant neu a oes ganddo fynediad at yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

9.6. Os felly, a yw'r tîm ymchwilio wedi adolygu'r cynnwys ar gyfer deunydd sy'n berthnasol i'r ymchwiliad parhaus. Nes bydd hyn wedi ei gwblhau, nid yw'r heddlu'n gallu caniatáu datgeliad pellach, oherwydd gallai cynnwys y ddyfais arwain at ragor o ymholiadau/camau ymchwilio. Gallai datgelu cynnar heb adolygiad beryglu'r ymchwiliad troseddol parhaus ac unrhyw erlyniad dilynol.

9.7. Os felly, bydd yr heddlu'n darparu amserlen amcangyfrif ar gyfer pryd bydd y swyddog yn ceisio cwblhau'r adolygiad a darparu'r canlyniadau mewn fformat darllenadwy.

9.8. A oes unrhyw risg bosibl o niwed i unigolion wrth ddatgelu'r wybodaeth (wedi ei golygu neu fel arall) i'r partïon.

10. GOLYGU DATA SY'N CAEL EI GADW AR DDYFEISIAU ELECTRONIG (sy'n eiddo i'r partïon)

Gan ystyried maint yr wybodaeth a gedwir a'r ffaith nad yw'r heddlu yn rhan o'r achos sy'n mynd rhagddo, mae angen sefydlu bod digon o adnoddau ar gael i gynnal yr ymarfer datgelu a'i fod yn rhesymol ac yn gymesur.

Os nad oes gan yr heddlu unrhyw wrthwynebiad i ryddhau deunydd a lwythwyd i lawr mewn fformat heb ei olygu (h.y. dim risg o ragfarn i ymchwiliad neu niwed i unigolyn) bydd yr heddlu angen gorchymyn gan y llys yn nodi y dylid datgelu deunydd wedi ei lwytho i lawr mewn fformat heb ei olygu (wedi ei gyfyngu i'r amserlen fforensig o ddiddordeb).

Os nad oes gan yr heddlu wrthwynebiad ond bod perchennog y ddyfais yn mynegi pryderon ynghylch datgelu data heb ei ymarfer, bydd y dewisiadau a ganlyn ar gael:

10.1. Mae'r partïon a'r llys yn cytuno i'r heddlu ddarparu deunydd wedi ei lwytho i lawr heb eu golygu (wedi eu cyfyngu i'r amserlen fforensig o ddiddordeb) i gynrychiolydd cyfreithiol y perchennog, a fydd wedyn yn adolygu'r cynnwys ar gyfer ei olygu; neu

10.2. Mae'r partïon a'r llys yn cytuno i'r heddlu ddarparu deunydd wedi ei lwytho i lawr heb ei olygu (wedi ei gyfyngu i'r amserlen fforensig o ddiddordeb) i gwnsler annibynnol a gyfarwyddir gan gynrychiolydd cyfreithiol yr ymgeisydd, i adolygu'r cynnwys ar gyfer golygiadau. Yna dylid dychwelyd y deunydd wedi ei lwytho i lawr heb ei olygu i'r heddlu drwy ddull diogel, a dylid trosglwyddo fersiynau wedi eu golygu i gynrychiolydd cyfreithiol yr ymgeisydd. Wrth gwrs, bydd angen i'r partïon roi cyfarwyddiadau i gynrychiolydd yr ymgeisydd ynghylch pa wybodaeth y mae angen ei golygu a dylid trafod hyn yn y gwrandawriad nesaf hefyd.

11.DATGANIADAU TYSTION OS OES ANGEN

Dylai unrhyw barti sy'n gwneud cais ac sy'n dymuno defnyddio'r drefn gwysio tystion wneud hynny fel dewis olaf yn unig, os nad yw'r heddlu wedi gallu cydymffurfio â chais am ddatgeliad, neu os yw'n ofynnol i swyddog fynd i'r llys yn bersonol i roi tystiolaeth. Rhaid i'r parti sy'n gwneud y cais gysylltu â'r heddlu cyn defnyddio'r weithdrefn hon.

12.DELWEDDAU ANWEDDUS

Yn ystod ymchwiliad, gall yr heddlu atafaelu deunydd sy'n cynnwys delweddau anweddus o blant (dan 18) neu ddelweddau o'r fath yr honnir eu bod yn anweddus. Os yw'n berthnasol ac yn angenrheidiol, dylai cais geisio cael disgrifiad yr heddlu o'r delweddau hynny, neu ddisgrifiad pellach a gwell, nid y delweddau eu hunain. Ni chaniateir mynediad at ddelweddau o'r fath heb orchymyn barnwr Llys Teulu. Dylai barnwr y gofynnir iddo ystyried gorchymyn sy'n hwyluso mynediad i'r delweddau eu hunain gael gwybod am ddarpariaethau adran 160 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ac adrannau 1 i 7 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978, yn enwedig trosedd 'gwneud llun anweddus o blentyn' a'r amddiffyniadau statudol ac eithriadau, a dim ond trefnu mynediad dan reolaeth a hwylusir gan yr heddlu (gan gynnwys mynediad sy'n caniatáu i barti gael trafodaeth gyfrinachol gyda'u cynrychiolwyr cyfreithiol) y dylid gofyn iddynt ei ystyried. Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i ddelweddau eraill lle mae lledaenu wedi ei wahardd.

13. TERMINOLEG YR HEDDLU

- 13.1. Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith (LEDS) – bydd yr adroddiad hwn yn rhoi manylion euogfarnau/gwaharddiadau neu rybuddiadau
- 13.2. Adroddiad yr ymchwiliad - CRIS/Niche/FWIN ac ati. Bydd yr adroddiad hwn yn cofnodi llwybr yr ymchwiliad, pa wybodaeth a gasglwyd o ganlyniad i ymholiadau, a'r canlyniad.
- 13.3. Merlin/Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (PPN) – bydd yr adroddiad hwn yn cofnodi asesiad cychwynnol neu benderfyniad ynghylch digwyddiad sy'n ymwneud ag unigolyn agored i niwed. Cyfeirir y cofnodion hyn yn awtomatig at yr awdurdod lleol ac felly dylid gofyn am yr adroddiadau hyn gan ddefnyddio adran 7 y cais.
- 13.4. MG11 – datganiadau
- 13.5. MG15 – trawsgrifiad o'r cyfweiliad
- 13.6. VRI/ABE – cyfweiliad wedi ei recordio'n weledol
- 13.7. ROTI – Recordiad o gyfweiliad ar dâp
- 13.8. ROVI - Recordiad o gyfweiliad Fideo
- 13.9. BWV – Fideo camera corff
- 13.10. CAD/galwad 999/STORM – mae hyn yn ymwneud â chofnod galwadau i weithredwr yr heddlu

Enghraifft o adroddiad cryno a ddrafftwyd gan yr MPS.

Rhif y Trosedd	Dyddiad y digwyddiad	Dosbarthiad cyfredol ar system CRIS	Enw Llawn	Dyddiad Geni	Rôl	Canlyniad
1236072/19	27/05/2019 i 29/06/2019 Adroddwyd 02/08/2019	SUBSTANT./Troseddau Aflonyddu Mae'r dioddefwr yn dweud bod ei chyn-bartner (yr un a amheuir) yn aflonyddu drwy e-bost, galwadau a negeseuon testun.	Ash Smith Cat Smith	10/10/1974 16 Awst 1975	Yr un a amheuir Dioddefwr	Rhodddwyd rhybudd atal aflonyddu i'r sawl a amheuir.
2821234/20	07/07/2018 Adroddwyd ar 19/09/2020	SUBSTANT./Creulondeb at Blentyn neu Esgeuluso Plentyn Yn ystod apwyntiad, soniodd yr hysbysydd am yr ymosodiad ar y ferch gan yr un a amheuir	Jill Smith Ash Smith Cat Smith	18/09/2013 10/10/1974 16/08/1975	Dioddefwr Hysbysydd Yr un a amheuir	Dim camau pellach

Sylwch y bydd yr adroddiad cryno yn amrywio yn dibynnu ar y gwnstabiliaeth.